# DOLEN

YSGOL BRO TEIFI




Rhifyn 9 - 28ain o Fai 2025

## *Annwyl Rieni, Gofalwyr a Chyfeillion,*

Croeso i rifyn mis Mai o gylchgrawn Dolen. Mae hi wedi bod yn hanner tymor aruthrol o brysur yn yr ysgol, er taw ond 19 diwrnod ysgol oedd. Rydym wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer yr arholiadau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch ac mae'r disgyblion bellach hanner ffordd drwy'r asesiadau pwysig hynny. Yn ystod y tymor hefyd, cawsom wybod am lwyddiannau cystadlaethau Celf a Chrefft, Llenyddol a Gwaith Cartref Eisteddfod yr Urdd a chewch ddysgu mwy am y buddugwyr yn y rhifyn hwn.

Edrychwn ymlaen hefyd at ddilyn yr holl gystadleuwyr a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Dur a Mor yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Cewch ddilyn y llwyddiannau hynny ar ein tudalen facebook yn ogystal. Braf iawn yw nodi dyma'r nifer uchaf erioed o gystadleuwyr a fydd yn cystadlu o dan baner Ysgol Bro Teifi yn yr Eisteddfod. Dymunwn y gorau oll i bawb - maent yn sêr bob un ohonynt ac rydym yn hynod o falch o'u llwyddiannau hyd yma.

Wrth i ni edrych ymlaen i hanner tymor ola'r flwyddyn, mae'r prysurdeb yn parhau. Gallwch weld ddyddiadau pwysig gweddill y flwyddyn academaidd ar ddiwedd y rhifyn hwn gan gynnwys mabolgampau oed cynradd ac uwchradd, a'n diwrnodau pontio a diwrnod hwyl i flynyddoedd 5 a 6.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddaf yn rhannu dolen i holiadur pwysig i rieni gyda chi er mwyn casglu eich barn am waith yr ysgol. Byddwn yn gwerthfawrogi yn fawr eich amser yn ei lenwi - mae eich llais chi fel rhieni yn bwysig iawn i ni.

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth barhaus a phob hwyl am weddill y flwyddyn academaidd,

*G Evans*

*Pennaeth*

# EISTEDDFOD YR URDD

Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025

*Yn ystod yr hanner tymor hwn, cynhaliwyd Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd Rhanbarth Ceredigion. Llongyfarchiadau gwresog i'n disgyblion a ddaeth i'r brig.*

*Gwaith 3D Bl.5 a 6: 1af Katie Thomas*
*Gwaith 3D Bl.2 ac iau: 1af Owain Thomas*
*Ffasiwn Bl.7-9: 1af Magw Thomas*
*Creu Tecstiliau Bl.7-9: 3ydd Elis Evans*
*Tecstiliau Creadigol Bl.5 a 6: 3ydd Katie Thomas*
*Ffotograffiaeth - Llun Lliw Bl.7-9: 2il Bedwyr Thomas*
*Ffotograffiaeth - Llun Lliw Bl.5 a 6: 1af Katie Thomas*
*Ffotograffiaeth - Llun Du a Gwyn Bl.7-9: 3ydd Magw Thomas*
*Ffotograff wedi'i addasu Bl.7-9: 1af Bedwyr Thomas*
*Creadigol 2D Bl.5 a 6: 2il Katie Thomas*
*Cynllunio Crys-T Bl.7-9: 1af Efa Dixon, 2il Lleucu Horwood*
*Cynllunio Crys-T Bl.5-6: 3ydd Katie Thomas*





*Yna, ar lefel cenedlaethol...*

*Ffotograffiaeth - Cyfres o luniau lliw Bl.5 a 6: 1af Katie Thomas*
*Ffotograffiaeth - Cyfres o luniau lliw Bl.7-9:*
*2il Magw Thomas*
*Uwchgylchu Bl.7-9: 2il Magw Thomas*

# EISTEDDFOD YR URDD

*Dyma'n disgyblion a ddaeth i'r brig yng nghystadlaethau llenyddol Eisteddfod yr Urdd eleni.*
*Adolygiad o unrhyw ffilm (bl.7-9): 1af - Einir George, 2il - Magi Williams*
*Barddoniaeth (bl.7): 1af - Gwenlli Thomas*
*Barddoniaeth (bl.9): 2il - Magw Thomas*
*Rhyddiaith (Bl.7): 2il - Marged Dafis*
*Rhyddiaith (Bl.10 +11): 1af - Sioned Elias-Davies*
*Cyfansoddi Sgript Wreiddiol (Bl.7): 1af - Elliw Jones*

**Dymuniadau gorau i bawb sy'n cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod yn ystod gwyliau'r hanner tymor.**



## LLWYDDIANNAU LLENYDDOL ERAILL



*Llongyfarchiadau gwresog i Mali Evans o Flwyddyn 12 am ennill y Gadair yn Eisteddfod Capel y Groes yn ystod gwyliau'r Pasg. Yn yr un Eisteddfod, cafwyd llwyddiant yn y gystadleuaeth ysgrifennu stori neu gerdd (dan 16 oed) gyda Magw Thomas (blwyddyn 9) yn ail, a Lola Griffiths (blwyddyn 8) a Magw Thomas yn gydradd drydydd.*
*Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Aeron Dafydd o Flwyddyn 13 a gipiodd Tlws y Llenor Ifanc yn Eisteddfod Maenclochog yn ddiweddar.*





# GWASANAETH I GOFFAU
# DIWRNOD VE

I nodi 80 mlynedd ers diweddd yr Ail Ryfel Byd yn Ewrop, cynhaliwyd gwasanaeth fer yn ein gardd goffa ar yr 8fed o Fai gydag aelodau Senedd Bro Teifi a'r Prif Swyddogion yn bresennol. Pleser oedd gwahodd y Cynghorydd Keith Evans i'r gwasanaeth yn ogystal. Gosodwyd plethdorch wrth gofeb y rhyfel i gofio am y rhai o'r ardal leol a aberthodd eu bywydau yn y rhyfel.








# GWAITH ELUSENNOL

Pleser o'r mwyaf oedd cyflwyno siec o £2000 o bunnoedd i Gangen Ymchwil Cancr Llandysul yn ddiweddar. Codwyd yr arian yn dilyn cynnal diwrnod allan o wisg ysgol ac yn dilyn Gwasanaeth Dinesig a gynhaliwyd yn yr ysgol o dan ofal y Cynghorydd Keith Evans. Penderfynwyd uno’r symiau ar gyfer y ddau ddigwyddiad a chyflwyno siec ar y cyd i gangen Llandysul o Ymchwil Cancr. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.



# CYSTADLEUAETH CENEDLAETHOL 7 BOB OCHR YR URDD

Bu nifer o dimau yn cystadlu ar Gaeau Blaendolau yn Abersytwyth. Llongyfarchiadau i dîm bechgyn Bl 10 am ennill cystadleuaeth y plât. Llongyfarchiadau hefyd i dîm merched Bl 7 ac 8 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth y plât.







# CYSTADLEUAETH CRICED URDD DE CEREDIGION



Llongyfarchiadau i'r tîm criced blwyddyn 4 ar ennill Cystadleuaeth criced Urdd De Ceredigion! Byddant nawr yn mynd ymlaen i gystadlu yng Nghaerdydd yn y rownd CenedlaetholDa iawn chi.

# Llwyddiannau Eraill

Llongyfarchiadau i Eiri O'Connor a Cari Jones a gynrychiolodd Gymru yn ddiweddar yn Nottingham a Lee Valley yng nghystadleuaeth dethol Iau DU o gaiacio slalom a chaiacio cross. Camp a hanner a phrofiad gwych i'r ddwy gael rasio ochr yn ochr ag enillwyr medalau Olympaidd.





Mae Amelia Williams, Dewi Ifan, Maisie Owen a Kobi Witte wedi bod yn serennu yn y maes athletau ar sawl penwythnos, gan gynnwys Athletau Rhanbarthol Gorllewin Cymru. . Enillodd Kobi y ras 100m a'r ras 200m i fechgyn dan 15 oed.



Daeth Dewi yn drydydd wrth daflu'r pwysau i fechgyn dan 15 oed, ac yn ail wrth daflu'r ddisgen. Daeth Maisie hefyd yn ail yn y gystadleuaeth ddisgen i ferched dan 17 oed. Enillodd Amelia y ras 3,000m i ferched dan 17 oed

# Llwyddiannau Eraill



Cafodd Celyn Davies o flwyddyn 7 diwrnod i'w gofio wrth chwarae ochr yn ochr â disgyblion o siroedd Caerfyrddin, Abertawe, Cerdd NPT, Powys, Sir Benfro a Cherddorfa Cenedlaethol Cymru. Profiad arbennig iawn.

Llongyfarchiadau i Gwenlli sydd wedi cael ei dewis i fod yn un o ddawnswyr y Ddawns Flodau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las flwyddyn nesaf. Cafodd gyfle hefyd i fod yn rhan o Seremoni Gyhoeddi'r Eisteddfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Arberth

Pob hwyl iddi yn Eisteddfod 2026.



# Cysylltiadau â'r Gymuned

Rydym yn hynod o falch o'r cysylltiadau sydd gennym ni fel ysgol gyda'r gymuned.

Bu rhai disgyblion blwyddyn 11 yn ymweld â gweithdy gwydr Cariad Glass yn Llandysul lle cawsant gyfle i ddysgu am y diwydiant gwydr. Mae'r busnes lleol yn ffocysu ar grefft draddodiadol ac yn parhau i ddefnyddio offer a thechnegau a ddefnyddiwyd gan artistiaid gwydr lliw gannoedd o flynyddoedd yn ôl.

## Cariad Glass



## Yr Ardd



Mae criw o'n disgyblion wedi bod yn gweithio law yn llaw gydag aelodau'r gymuned i ehangu Yr Ardd gymunedol yn y pentref, a'r ardal arddio yn yr ysgol hefyd. Daeth criw ffilmio'r rhaglen Heno draw i Landysul er mwyn dathlu'r gwaith arbennig.

Heno

# Teithiau Preswyl



Cafodd disgyblion blwyddyn 4 amser wrth eu bodd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Ymhlith eu gweithgareddau oedd marchogaeth, saethyddiaeth, cwrs rhaffau, wal ddringo, gwibgartio, thrampolinio, a rhostio malws melys!

Urdd

Yn yr un modd, aeth disgyblion blwyddyn 6 ar eu taith breswyl nhw i Wersyll yr Urdd Glan Llyn, a chael modd i fyw. Yno, cawsant y cyfle i adeiladu rafft, saethyddiaeth, canwio, cyfeiriannu, nofio, rhaffau uchel, y wal ddringo a rhostio malws melys!





# Dyddiadau Pwysig Tymor yr Haf

| Dyddiad Date | Digwyddiad | Event |
|---|---|---|
| 16-20/06/2026 | Wythnos Arholiadau Blwyddyn 7 ac 8 | Year 7 and 8 Examinations Week |
| 23/06/2025 | DIWRNOD HMS - Ysgol ar Gau i ddisgyblion | INSET DAY - School Closed for Pupils |
| 25-26/06/2025 | Diwrnodau Pontio Bl 6 | Year 6 Transition Days |
| 25/06/2025 | Cyfarfod Pontio i Rieni Darpar ddisgyblion Bl 7 | Transition Meeting for Parents of Prospective Yr 7 pupils |
| 27/06/2025 | Bron yn Prom - Bl 11 | Yr 11- “Bron yn Prom” |
| 27/06/2025 | Mabolgampau Meithrin - Bl 6 | Meithrin - Yr 6 Sports Day |
| 01/07/2025 | Mabolgampau Oed Uwchradd | Secondary Age Sports Day |
| 02/07/2025 | Diwrnod Hwyl Blwyddyn 5 | Year 5 Fun Day |
| 10-11/07/2025 | Eisteddfod Ysgol Oed Uwchradd | Secondary Age School Eisteddfod |
| 18/07/2025 | **DIWEDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD** | **END OF SCHOOL ACADEMIC YEAR** |

# CYNGERDD
# CONCERT

CANCER RESEARCH UK

**PWYLLGOR
YMCHWIL CANCR
LLANDYSUL A'R FRO**

## CÔR BELLA VOCE
## BELLA VOCE CHOIR

### AC/AND
### YSGOL BRO TEIFI



## CAPEL PENYBONT CHAPEL
## PONTWELI, LLANDYSUL

# 06.06.25

7YH / 7PM
TOCYNNAU/TICKETS: **£10**
**(PLANT AM DDIM / CHILDREN FREE)**

**TOCYNNAU AR GAEL O / TICKETS AVAILABLE FROM:
SPAR, PORTH, FFAB, CARIAD GLASS
NEU WRTH Y DRWS AR Y NOSON / OR AT THE DOOR ON THE EVENING**

BAG 2 SCHOOL

**Helpwch ni i godi arian i'r ysgol trwy ddod â dillad diangen i mewn!**

**Mae hwn yn gyfle gwych i glirio'ch cwpwrdd dillad a helpu Ysgol Bro Teifi i godi arian ar yr un pryd!**

# Dyddiad y casgliad: 4/6/25



**Rhowch y pethau mewn bag du neu fag plastig os nad oes gennych fag swyddogol Bag2School.**

**Mwy rydyn ni'n ei gasglu = mwy o arian i'r ysgol!**
**Diolch am eich cefnogaeth!**

☑ **Beth ALLWCH chi ei roi:**

- Dillad mewn cyflwr da (oedolion a phlant)
- Esgidiau (wedi'u paru)
- Bagiau llaw
- Gwregysau
- Hetiau
- Sgarffiau
- Tecstilau cartref (e.e. llenni, tywelion, lliain bwrdd)

✖ **Beth NAD YDYM yn gallu derbyn:**

- Dilledyn sydd wedi'i ddifrodi neu'n fudr
- Dillad ysgol
- Blancedi
- Pillows neu "duvets"

oni heuir ni fedir

# Gair am ffonau symudol!

**Mae gan yr ysgol bolisi clir ar ddefnydd o ffonau symudol .**

- **Nid oes hawl gan ddisgyblion oed cynradd i ddod a ffon i'r ysgol.**
- **Rydym yn caniatau i ddisgyblion oed uwchradd i ddod a ffonau ar y campws.**
- **Nid oes hawl gan ddisgyblion i ddefnyddio ffonau o gwbl ar y safle. Dylid eu cadw yn eu pocedi, mewn bag neu gellir gofyn am locer os dymunwch.**
- **Os caiff plentyn ei ddal yn defnyddio ffon..**
  - **Y tro cyntaf - ffon yn cael ei gymryd a'i osod yn y dderbynfa i'w gasglu ar ddiwedd y dydd.**
  - **Ail waith - ffon yn cael ei gymryd a'i osod yn y dderbynfa - rhiant i'w gasglu.**
- **Os oes angen i chi gysylltu gyda'ch plentyn - cysylltwch gyda'r dderbynfa a gwnawn ni drosglwyddo'r neges.**
- **Os oes angen i'ch plentyn gysylltu gyda chi - bydd modd iddynt wneud drwy'r dderbynfa.**

# Apwyntiad gyda'r Pennaeth

**Cofiwch bod modd i chi wneud apwyntiad gyda'r Pennaeth er mwyn trafod unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn nad ydych wedi gallu mynd i'r afael â hi, drwy'r ffynonellau arferol. Bydd yr apwyntiad am uchafswm o 10 munud a bydd y Pennaeth yn casglu gwybdoaeth am yr hyn sy'n eich poeni a threfnu amser pellach os oes angen. Gweler isod fanylion pellach:**

**Amserau apwyntiadau**

Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)
Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)

I archebu apwyntiad, ewch i
https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/

01559 362503 | swyddfa@broteifi.ceredigion.sch.uk | www.ysgolbroteifi.cymru